## P-05-752 Meithrin gallu plant i wrthsefyll seiberfwlio

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jamie Denyer ar ôl casglu 421llofnod.

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu a chynnal gwaith ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth, a chynhyrchu strategaeth ac argymhellion i feithrin gallu ein plant, o'u plentyndod cynnar, i wrthsefyll effeithiau distrywiol seiberfwlio.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Dylai'r strategaeth gynnwys cyngor i rieni ac ysgolion ynghylch:
* sut i greu safbwyntiau iach a chreu perthynas iach ag eraill ar y cyfryngau cymdeithasol
* sut i baratoi plant i adnabod ac amddiffyn eu hunain rhag y math o ymddygiad sy'n cyfateb i seiberfwlio

* sut i ddysgu plant i wahanu profiadau ar-lein oddi wrth brofiadau bywydau 'go iawn'
* sut i feithrin gallu plant i ymdopi'n emosiynol ag ymosodiadau personol ar-lein

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru